
# Cyfnod Sylfaen - Blwyddyn 1

## Côt Law Siôn Corn


Nadolig Llawen!

Annwyl blantos Rhostryfan, Mrs Huws a Miss Ellis,

Gobeithio eich bod yn edrych ymlaen at y Nadolig!

Ydi'r corrachod direidus wedi cyrraedd eich tŷ chi eto?

Fel y gwyddoch Noswyl y Nadolig, mi fydda i allan drwy'r nos yn cludo anrhegion i blant y byd i gyd. Ond mae fy nghôt, fel finnau, yn hen iawn ac mae'n dechrau gollwng dŵr!


Mae Mrs Corn wedi dweud ei bod hi am wneud côt newydd i mi ond does yr un o'r ddau ohonom yn gwybod pa ddefnydd yw'r gorau i wneud côt law dda.

Rwy'n gwybod yn iawn eich bod chi'n blant gweithgar a deallus yn Rhostryfan acw. A wnewch chi wneud arbrawf efo Mrs Huws i weld pa ddefnydd sydd yn dal dŵr orau?

Hefyd ewch ati i gynllunio côt i mi - dyma ychydig o fotymau i chi ei haddurnio.

Diolch o galon a chofion gorau!

Siôn Corn


Enw: Greta

Côtiau Pwy?

Tynnwch linell o'r llun i'r gair i gysylltu'r person â'i swydd.

Ambiwlans — Ambiwlans

Nyrs — Nyrs

Ymladdwr Tân — Ymladdwr Tân

Yr Heddlu — Yr Heddlu


Gwaith Mrs K Hughes 1/12/21


Enw: Greta

Esgidiau Glaw Siôn Corn

Mae Siôn Corn eisiau esgidiau glaw newydd i fynd efo'i gôt. Ewch ati i gynllunio rhai newydd gan ddefnyddio **tri (3) lliw**.

lliwiau:


Enw: Greta

Taflen Waith Grŵp Ffocws

Rwy'n rhagfynegi mai'r defnydd mwyaf gwrth-ddŵr yw: Gwlân

Y defnydd mwyaf **gwrth-ddŵr** (sydd yn dal dŵr orau) yw:

clingffilm

Enw'r defnydd:

Y defnydd **lleiaf gwrth-ddŵr** (sydd yn gollwng dŵr fwyaf) yw:

Enw'r defnydd: Gwlân

1/12/21

# Y Dasg

**Gwers ardaloedd yn cylchdroi** i ddod o hyd i'r defnydd gorau i wneud côt law newydd i Siôn Corn.

**SBARDUN:** Llythyr gan Siôn Corn yn gofyn i blantos Rhostryfan i'w helpu i ddewis côt law newydd.

**Ardal 1 – Botymau Mewn Clai:** creu siâp côt Siôn Corn o glai a gosod botymau arni (cafodd eu hanfon gan Siôn Corn gyda'r llythyr) gan ddefnyddio sgiliau motor mân. Pwysleisio'r elfen rifedd wrth gyfri botymau mawr a bach.

**Ardal 2 – Dylunio esgidiau glaw i Siôn Corn:** dylunio a lliwio, gyda thri lliw yn unig o'u dewis. Pwysleisio'r angen am batrwm yn hytrach na dim ond lliwiau. Arddangos pâr o esgidiau glaw fel ysbrydoliaeth.

**Ardal 3 – TGCh:** Ar *iPad*, cynllunio côt law i Sion Corn gan ddefnyddio lliwiau Nadoligaidd.

**Ardal 4 – Tasg Ffocws:** Astudiaeth wyddonol o wahanol ddeunyddiau i weld pa ddeunydd sy'n gwneud y gôt law orau. Cyfle i drochi teganau mewn dŵr a'u gorchuddio gyda'r deunyddiau. Cyflwyno'r syniad o ragfynegi canlyniad arbrawf.

**Ardal 5 – Cyfateb Llun a Gair:** Cysylltu llun â gair ar y thema 'cotiau'.










(Angen llun i pic collage)

Côt Glai Siôn Corn

Gyda darn o glai, gwnewch siâp côt fel sydd yn y llun isod.

1 2 3

Gwthiwch dri (3) botwm gwahanol, a gawsom gan Siôn Corn, i mewn i'r gôt glai.


Dylunio Cot Law i Siôn Corn

Ar iPad, ewch ar **JiT5** a thynnwch lun o gôt law newydd i Siôn Corn.

Cofiwch ddefnyddio lliwiau Nadoligaidd fel **coch**, **gwyrdd** ac **aur**.



